# Cofnodion Cyfarfod 2/7/2026

**Presennol:** Cyng Rhys Evans, Eluned Jones, Ceri Evans, Ken Edwards, Jacqueline Allen, Tomos Ffrancon, Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Dilys Evans, Eifion Roberts, Moira Mai, Sion McGuiness a Haydn Roberts.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng Rhys Evans. Fe gyfeiriodd eto at holl waith y Cyng Dilys Evans fel Maer y Dref, gan ddiolch iddi am ei gwaith ar ran y trigolion.

2. **Buddiant:** Ni ddatganwyd buddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 4/6/26.

   **Ymddiswyddiad y Cyng Huw Symonds:** Derbyniwyd neges gan Huw Symonds yn cadarnhau ei fod yn ymddiswyddo o'i rôl fel aelod o'r Cyngor Tref. Diolchwyd i Huw am ei waith, ac fe gytunwyd i drafod trefniadau cyfethol yng nghyfarfod mis Medi o'r cyngor.

4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

   i. Cynllun Gwynedd Ni: Nodwyd fod un rac beics yn parhau heb ei osod. Trafodwyd gwahanol leoliadau posibl yn y dref, a gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau hefo'r perchenogion tir.

   ii. Gwaith Celf y Bala: Adroddwyd fod y cais am gyllid i wireddu'r gwaith o adleoli'r gwaith celf wedi ei gymeradwyo. Cytunwyd i symud ymlaen i benodi'r contractwyr i adleoli ac uwchraddio'r gwaith celf a gosod sylfaen goncrid, hyn mewn cydweithrediad â Stad y Rhiwlas a Chanolfan Hamdden Byw'n Iach Penllyn. Nodwyd hefyd fod modd ymgeisio am gyllid pellach, ac yn dilyn trafodaeth fe gytunwyd i drafod y posibilrwydd o gyfrannu at uwchraddio Canolfan Henblas, ac fe ofynnwyd i'r clerc fwrw ymlaen hefo'r trafodaethau ac hefo'r cais am gyllid ychwanegol.

   iii. Mainc Tomen y Bala: Derbyniwyd diweddariad gan Glwb Rotari'r Bala eu bod wedi gosod mainc ar y Domen er cof am y diweddar Arthur Evans, a'u bod yn bwriadu cynnal seremoni i gofnodi gosod y fainc. Gofynnwyd i'r Maer a'r Cynghorydd Sir i fynychu'r seremoni ar ran y Cyngor Tref.

iv. Ardoll Ymwelwyr: Cafwyd trafodaeth ar ymgynghoriad Cyngor Gwynedd ar y bwriad i osod Ardoll Ymwelwyr yn y sir, ardoll a fyddai'n codi £0.90 y pen y noson mewn pabell, neu £1.56 y pen mewn carafán neu lety gwyliau. Nodwyd y gallai'r ardoll godi oddeutu £2.5m y flwyddyn i Wynedd, arian y gellid ei ddefnyddio ar ffurf grantiau i ddatblygu a gwarchod cymunedau lleol y sir. Yn dilyn trafodaeth fe gytunwyd i gefnogi'r bwriad, ac i nodi hefyd fod angen sustem weinyddol na fydd yn rhoi baich afresymol ar fusnesau lleol.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Dilwyn Morgan. Fe ddiolchodd i Grŵp Busnesau'r Bala ac i'r cynghorwyr fuodd wrthi'n chwynnu yn y dref ddechrau'r wythnos, gan nodi fod y Stryd Fawr yn werth ei gweld yn dilyn y gwaith. Dywedodd hefyd fod trefniant i Dim Tacluso Ardal Ni Gwynedd i ddod i chwistrellu chwynladdwr yn strydoedd cefn y dref yn fuan. Eglurodd fod trafodaethau wedi cychwyn ar gyflwyno llinellau melyn ar rannau o Heol Tegid tuag at y llyn, hyn er mwyn ceisio rheoli parcio afreolaidd gan campervans etc, ond y gall y broses yma gymryd rhai misoedd. Awgrymwyd y dylid gwahodd Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu i gyfarfod nesaf y cyngor i wyntyllu'r materion yma.

6. **Is-bwyllgorau:**

**Is Bwyllgor Asedau:** Nodwyd fod y gwydr yn parhau heb ei osod ar loches bws yn y dref, a bod gwaith heb ei gwblhau ar un o'r coed ar y Stryd Fawr. Nodwyd fod mainc ar Lwybr y Llyn wedi cael ei thrwsio. Nodwyd fod meinciau angen eu gosod yn Blaenddol – y Maer i gydlynu'r trefniadau gyda chrefftwr lleol. Adroddwyd hefyd fod angen trafodaeth ar drefniadau cynnal a chadw cae chwarae'r Grin i'r dyfodol, a rôl benodol y Cyngor Tref yn y trefniadau.

**Is Bwyllgor Bioamrywiaeth:** Adroddwyd fod y gwaith o blannu blodau ar y Stryd Fawr wedi ei gwblhau, ac hefyd fod Polisi Cacynen Coes Felen wedi ei baratoi. Cytunwyd i ymgeisio am grantiau bychain (ee i ariannu bocsys gwenoliaid), ac hefyd i edrych i fewn i'r posibilrwydd o ddatblygu prosiect bioamrywiaeth ar Grin y Bala.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

**Un Llais Cymru:** Nodwyd y cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cangen Meirionnydd ar Orffennaf 15fed.
**Grŵp Busnesau'r Bala:** Nodwyd y cynhaliwyd eu cyfarfod blynyddol ar Fehefin 23ain.
**Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Rhoddwyd adroddiad ar waith diweddar y cwmni yn rheoli Canolfan Henblas, Canolfan Bro Tegid, yn darparu Hwb Llesiant i'r Bala, cyhoeddi'r Cyfnod a darparu Car Cymunedol. Nodwyd hefyd fod y cwmni yn ymchwilio am gyllid i wneud gwaith dichonoldeb ar Gynllun Hydro Cymunedol i'r ardal.

7. **Materion Cynllunio**:

Nid oedd materion cynllunio i'w trafod.



ARWYDDWYD......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)

*8.* **Materion Cyllid:**

**i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £11,791 yn y cyfri cyfredol, £37,490 yn y cyfri cadw a £592 yng Nghronfa'r Maer ddiwedd Mehefin.

**ii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, cyflog y Clerc, anfonebau Meirion Jones am flodau i'r Stryd Fawr, ac anfoneb Gwilym Edwards am waith cynnal a chadw Tomen y Bala.

iii. Adroddwyd fod cyfrifon terfynol y cyngor am 2025/2026 wedi eu cyflwyno i Archwilio Cymru, a bod hysbyseb wedi ei baratoi yn nodi hawliau trigolion i weld y cyfrifon blynyddol.

iv. Derbyniwyd neges o ddiolch am gymorth ariannol o Gronfa'r Maer gan Glwb Pêl-droed Ieuenctid y Bala.

**9. Gohebiaeth:**

i) Parc Cenedlaethol Eryri – Proffil Anheddau'r Bala: Nodwyd fod y parc yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol, a bod proffil o anheddau'r Bala yn rhan o'r cynllun. Fe sefydlwyd Is Bwyllgor Polisi i ystyried y proffil, gyda'r maer, y clerc a'r Cyng Ceri Evans a Tomos Ffrancon yn ffurfio'r Is bwyllgor.

ii) Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru – derbyniwyd ymgynghoriad gan y comisiwn ar faint a strwythur cynghorau lleol i'r dyfodol, ac fe ofynnwyd i'r Is Bwyllgor Polisi i gael golwg ar yr argymhellion.

iii) Un Llais Cymru: Cynhadledd Flynyddol. Derbyniwyd gwybodaeth am y gynhadledd.

iv) Bwrdd Gwybodaeth Mary Jones: Derbyniwyd gwybodaeth gan Gymdeithas y Beibl yn nodi fod y bwrdd gwybodaeth newydd wedi ei osod ar y Stryd Fawr yn ddiweddar.

v) Heol y Plase: Derbyniwyd rhybudd y bydd Heol y Plase yn cau dros dro ar Orffennaf 8fed ar gyfer gwaith hanfodol.

vi) Urdd Gobaith Cymru: Derbyniwyd gwahoddiad i De Gwersyll yn Llangrannog ar Awst 3ydd, hyn yn dilyn cyfraniad y cyngor i Gronfa Cyfle i Bawb y mudiad.

10. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Trafodwyd yr angen am groesfan ger y Grin a rhwng Llwybr yr Afon a'r llwybr sy'n arwain at y Clwb Rygbi. Gofynnwyd i'r clerc drafod gyda swyddogion Gwasanaeth Traffig Cyngor Gwynedd.

Dymunwyd haf hapus i bawb ac fe nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Iau 3 Medi 2026.